

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Aunwyl Mr Ramsay,

14 Ionawr 2019

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Hydref, gofynnwyd i mi gadarnhau a oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig unrhyw warant, trefniant prif brydles neu rwymedigaeth ddigwyddiadol arall mewn perthynas ag unrhyw gwmni arall sy'n debyg i'r un gydag Aston Martin. Cytunais i gymryd cyngor ynghylch hyn cyn ymateb i'r Pwyllgor.

Gallaf gadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru drefniadau gwarant yn eu lle mewn perthynas â thri phrosiect, gan gynnwys Aston Martin, ac roedd pob un o'r rhain wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau digwyddiadol yng nghyfrifon mis Ebrill 2018. Mae'r gwarantau hyn i'w gweld dan y pennawd 'Rhwymedigaethau contractiol posibl eraill'. Gallaf hefyd gadarnhau nad oes unrhyw drefniadau prif brydles yn adran rhwymedigaethau digwyddiadol cyfrifon Llywodraeth Cymru.

Y trefniant gydag Aston Martin yw'r unig warant yn ymwneud â thaliadau rhent, a dyma'r unig warant sydd wedi'i hymestyn dros gyfnod o 30 mlynedd. Mae'r ddau drefniant arall yn gwarantu benthyciadau dros gyfnod byrrach, gyda disgwyl i'r ddau ddod oddi ar ein cyfrifon fel rhwymedigaethau digwyddiadol erbyn mis Gorffennaf 2024 fan bellaf.

Rydym wedi ymgynghori â'r cwmnïau y mae gennym drefniadau gwarant â nhw, ac maent wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi manylion llawn y trefniadau gan eu bod yn ystyried eu bod yn sensitif yn fasnachol. Ar y sail honno, nid wyf yn bwriadu darparu rhagor o wybodaeth yn y llythyr hwn. Fodd bynnag, byddwn yn barod i edrych ar y posibilrwydd o weld swyddogion arweiniol yn briffio aelodau o'r Pwyllgor am y trefniadau



Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>

hyn mewn sesiwn breifat, fel bod modd i ni roi mwy o eglurder yn gyfrinachol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y symiau dan sylw a sut mae'r gwarantau hyn yn cael eu cyfrif.

Pe byddai hyn o gymorth i'r Pwyllgor, gallaf ofyn i'r swyddogion priodol fod ar gael i roi briff llafar i chi ar y sail honno.

Yn gywir, 

Shan Morgan

Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park Ffôn • Tel 0300 025 3289
Caerdydd • Cardiff PS.PermanentSecretary@gov.wales
CF10 3NQ Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en>